

CANLLAWIAU

Grant dewisol yw hwn sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru er mwyn darparu cymorth ariannol i unigolion sydd â rhwystrau rhag dechrau busnes ac sy'n wynebu heriau o ganlyniad i bandemig COVID-19.

DIBEN Y GRANT

Pwrpas y Gronfa yw galluogi unigolion di-waith neu unigolion sy'n economaidd anweithgar sy'n byw yng Nghymru, ddechrau busnes yng Nghymru, gan gynnwys mentrau cymdeithasol. Mae'r grant hwn yn ychwanegol at gymorth cychwyn busnes arall a gynigir drwy Busnes Cymru. Y gefnogaeth gyffredinol yw rhoi sylw penodol i faterion y rhai yr effeithir fwyaf arnynt yn economaidd gan Covid-19.

BUSNES CYMRU

Mae Busnes Cymru yn darparu cymorth wedi'i deilwra ar gyfer busnesau micro a busnesau bychan a chanolig yng Nghymru. Gall y gwasanaeth eich helpu chi i ddeall beth yw eich anghenion a darparu pecynnau cymorth wedi'u teilwra, yn cynnwys mynediad at offer ar-lein, gweithdai a gweminarau, cyngorwyr cyffredinol ac arbenigol ynghyd â mentoriaid. Yn ychwanegol at weithio gyda chi ar gynllun gweithredu busnes a chynllun diagnostig ar gyfer busnes, gall ein cyngorwyr hefyd ddarparu cyngor ariannol a dargedir a mynediad at gymorth arall y gallwch chi gael budd ohono.

Er mwyn cael rhagor o wybodaeth, ewch i <https://businesswales.gov.wales/cy> os gwelwch yn dda.

PWY ALL YMGEISIO?

Mae grant o **hyd at £2000** ar gael i helpu unigolion oresgyn rhwystrau i ddechrau busnes. Mae'r ceisiadau'n agored i unigolion sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar. Wrth ddyrannu cyllid, rhoddir blaenoriaeth i'r rheini sy'n profi'r effaith economaidd fwyaf yn sgil Covid-19. ;

Meini Prawf Cymhwysedd

Er mwyn ymgeisio, dylech chi fod yn ddi-waith, neu os ydych chi'n unigolyn ifanc eich bod yn cael eich ystyried yn ymadäwr Coleg neu Brifysgol fel y disgrifir isod.

Wrth asesu'r ceisiadau a dyrannu'r cyllid, bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r unigolion y mae pandemig Covid-19 wedi effeithio fwyaf arnynt. Y rhain yw:

- Pobl anabl
- Unigolion o gymuned BAME
- Merched
- Pobl ifanc nad ydyn nhw mewn addysg na hyfforddiant (NEETS) rhwng 18 a 24 oed **neu** Coleg neu Brifysgol* yn 2019 neu 2020. Ar gyfer **ymadawyr Coleg neu Brifysgol*** mae disgrisiwn hyd at 30 oed yn cael ei ganiatáu, os yw ymgeiswyr wedi gadael Coleg neu Brifysgol yn ystod 2019 neu 2020 ac nad oes ganddyn nhw unrhyw brofiad gwaith neu eu bod nhw wedi'u tangyflogi ar hyn o bryd (Cyflogedig

mewn swydd sy'n talu llai ac sy'n gofyn am lai o sgiliau neu hyfforddiant nag sydd gan yr unigolyn).

- Bydd gofyn i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth nad ydyn nhw mewn gwaith, eu bod yn economaidd anweithredol, yn ddi-waith yn yr hirdymor neu ddim mewn addysg na hyfforddiant.
- Bwriedir y grant hwn a'r cymorth busnes cysylltiedig i helpu'r rhai hynny sydd fwyaf o dan anfantais.
- Bydd angen i unigolion gofrestru gyda Gwasanaeth Cynghori Busnes Cymru a gallan nhw geisio cael cymorth gan Gynghorydd, ond gallan nhw hefyd gael mynediad at gymorth paratoadol drwy grwpiau cymorth busnes eraill. Gellir cael manylion ynglŷn â sefydliadau cefnogi ar wefan Busnes Cymru www.businesswales.gov.wales/cy.
- Mae angen i ymgeiswyr ddatgan nad oes ganddyn nhw unrhyw ffynonellau cyllid eraill (neu ffynonellau cyfyngedig) neu'u bod yn analluog o gael mynediad at unrhyw gyllid dechrau busnes arall neu y gallan nhw sicrhau cyllid rhannol yn unig er mwyn cynorthwyo i sefydlu'r busnes neu gostau rhedeg y busnes.
- Mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau, yn ogystal â chynllun busnes, o leiaf bythefnos **cyn** dechrau'r busnes.
- Darperir y grant ar gyfer gwariant refeniw yn unig. Mae hyn yn golygu mai gwariant a fydd yn ymddangos ar eich Cyfrif Elw a Cholled yn unig sy'n gymwys.

Gall gwariant cymwys gynnwys

- Cefnogaeth arbenigol – ffioedd ymgynghori, TGCh, allforio, marchnata, methodoleg ddarbodus ayyb.
 - Cyngor cyfreithiol/proffesiynol
 - Costau hyfforddi
 - Cyfarpar (hyd at werth o £1,000) – Pan nad yw'n cael ei ystyried yn gost cyfalaf drwy ymddangos ar fantolen y cwmni
 - Costau gweithredu – sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithgaredd busnes
 - Nodwch os gwelwch yn dda nad yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr. Nodwch: Ni fwriedir y grant ar gyfer cefnogi tynnu arian personol o'r busnes.
- Bwriedir i'r grant gyfrannu tuag at gostau hanfodol dechrau'r busnes, gyda manylion y costau yn cael eu cynnwys ar y ffurflen gais.
 - Y busnes yw prif ffynhonnell incwm a/neu gyflogaeth yr ymgeisydd.
 - Er mwyn derbyn taliad, bydd angen i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth fod y cwmni wedi dechrau masnachu, ee copi o'r anfoneb gyntaf, tystiolaeth o ddatganiad cyfrif banc busnes, statws cyfyngedig y cwmni, cofrestru gyda CThEM ar gyfer hunangyflogaeth, hysbysebu neu bresenoldeb digidol.

- Mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n ymgeisio fyw yng Nghymru.
- Mae'n rhaid i fusnes arfaethedig yr ymgeisydd gael ei gofrestru a'i weithredu yng Nghymru.
- Dim ond un cais a dderbynnir i bob busnes.
- Mae'n rhaid i berchennog y busnes gyflwyno ceisiadau ac nid asiantiaid sy'n gweithredu ar ei ran. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na all ymgeiswyr dderbyn cymorth i helpu gwblhau'r ffurflen.
- Nid oes unrhyw eithriadau ar gyfer unrhyw un sydd wedi derbyn cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru neu Awdurdodau Lleol o'r blaen ac sy'n cwrdd â'r meini prawf eraill.

Categoriâu Busnes nad ydyn nhw'n derbyn cymorth

Busnesau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo safbwyntiau crefyddol neu wleidyddol arbennig; hapchwarae; pornograffi; cynnig gwasanaethau rhywiol o unrhyw fath; unrhyw weithgareddau anghyfreithlon; ac unrhyw fusnesau a dybir eu bod yn 'newydd a dadleuol' gan Lywodraeth Cymru.

FAINT O ARIAN ALLWCH CHI YMGEISIO AMDANO?

Mae grant o **hyd at £2000** ar gael i bob busnes, er mwyn rhoi cymorth gyda'r costau sefydlu. Bydd hyn yn cael ei asesu yn erbyn y cynllun busnes.

Mae angen i ymgeiswyr gadarnhau nad oes ganddyn nhw, heb gefnogaeth y grant, unrhyw ffynonellau cyllid na ffynonellau cyfyngedig o gyllid i'w helpu nhw i ddechrau eu busnes.

Mae dyfarnu'r grant yn ddewisol ac yn seiliedig ar dystiolaeth o angen.

Nid ydym yn rhagweld y bydd pob ymgeisydd yn gwneud cais am y gwerth uchaf. Dim ond am y swm sydd ei angen arnoch i ddechrau arni y dylech wneud cais. Bydd hyn yn ein galluogi i gefnogi cynifer o bobl â phosibl drwy'r gronfa hon.

NODWCH OS GWELWCH YN DDA – bydd y grant yn cael ei dalu pan mae'ch busnes yn dechrau, ac nid ymlaen llaw. Bydd angen i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth bod y cwmni wedi dechrau masnachu er mwyn derbyn y cyllid.

SUT I YMGEISIO

Dim ond drwy ddefnyddio'r ffurflen gais y gall ymgeiswyr wneud cais. Mae'r ffurflen ar gael ar-lein <https://businesswales.gov.wales/cy/grant-rhwystrau-busnes-cymru> Unwaith y bydd wedi'i chwblhau, dylid anfon y ffurflen gais, ynghyd â'r cynllun busnes neu'r cynfas model busnes, drwy e-bost at grantrhwystrau@businesswales.org.uk Rydyn ni'n ceisio ateb a chydabod derbyn y cais o fewn 5 niwrnod gwaith.

Mae'r Grant Rhwystrau ar agor i geisiadau o 1 Rhagfyr 2020 hyd at 19 Mawrth 2021. Fodd bynnag, os bydd yr arian wedi'i ddyrannu cyn y dyddiad hwn, bydd y cynllun yn cau. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau cyn ymgeisio neu os oes gennych chi unrhyw bryderon na allwch chi gymryd rhan yn y broses ymgeisio neu gynllunio busnes oherwydd, er enghraifft, rhesymau meddygol/technegol/gofalu, cysylltwch â Busnes Cymru os gwelwch yn dda fel y gallwn ni drafod sut y gallwn ni eich helpu.

CANLLAWIAU YNGLŶN Â CHWBLHAU'R FFURFLEN

Adran 1 – Gwybodaeth amdanoch chi

Mae'r rhan hon yn gofyn am wybodaeth amdanoch chi, 'yr ymgeisydd'. Sicrhewch fod yr holl wybodaeth yn gywir os gwelwch yn dda.

Y Dystiolaeth sydd ei hangen – byddwn angen dau fath o ddull adnabod er mwyn gwirio eich hunaniaeth:

- ✓ Pasbort/Trwydded Yrru/Dull adnabod ffotograffig
- ✓ Prawf o'ch cyfeiriad wedi'i ddyddio o fewn y tri mis diwethaf.
- ✓ Prawf o statws di-waith

Nodwch os gwelwch yn dda pa grŵp demograffig yr ydych chi'n ystyried sy'n eich cynrychioli chi.

Ac, i'r rhai hynny ohonoch sydd yn y categori Ymadawyr Coleg neu Brifysgol, byddwn angen rhywfaint o wybodaeth ychwanegol. Mae hyn yn gysylltiedig â maes a lefel eich addysg, y sefydliad addysgol a fynychwyd, dyddiad ymadael a gwybodaeth am eich gwaith presennol. Sicrhewch os gwelwch yn dda eich bod yn cynnwys eich manylion cyflog (un ai cyflog blynyddol neu gyflog fesul awr) a faint o oriau yr ydych chi'n gweithio yr wythnos (os yw hwn yn batrwm gwaith hyblyg, dylech chi gynnwys cyfartaledd yr wythnos yn ystod y mis diwethaf). Cofiwch gynnwys y dystiolaeth sydd ei hangen isod.

Tystiolaeth sydd ei hangen – byddwn angen rhywfaint o wybodaeth er mwyn gwirio eich statws presennol:

- ✓ Tystysgrifau Cymwysterau
- ✓ Papur cyflog/datganiad cyflog (o'r tri mis diwethaf sy'n cynnwys cyfnod o bedair wythnos)

Adran 2 – Gwybodaeth am Eich Busnes Newydd Arfaethedig

Darparwch fanylion os gwelwch yn dda ynglŷn â'ch busnes newydd – enw arfaethedig, math o fusnes a'ch dyddiad dechrau arfaethedig.

Adran 3 – Cyllid

Rhowch wybod inni os gwelwch yn dda faint o gyllid yr ydych chi'n ymgeisio amdano. Gallwch chi ymgeisio am uchafswm o £2,000. Rydym ni angen gwybod ar gyfer beth yr ydych chi'n bwriadu defnyddio'r grant a byddwch chi angen cwblhau dadansoddiad o'r hyn sydd ei angen, y costau a pham mae angen yr 'eitem' arbennig hon.

Yn ogystal, byddem yn hoffi gwybod a ydych chi'n bwriadu cyflogi unrhyw staff, ac os byddwch chi'n cyflogi, darparwch fanylion ynglŷn â'r mathau o swyddogaethau a fyddan nhw.

Rydym ni angen asesu beth fydd effaith y grant hwn, a pha wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud i'ch helpu chi ddechrau eich busnes.

Adran 4 – Manylion Banc

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio er mwyn talu'r Grant i chi. Sicrhewch os gwelwch yn dda fod manylion banc cywir yn cael eu darparu. Bydd manylion banc anghywir yn arwain at beidio â thalu'r grant neu bydd oedi wrth ei dalu.

Adran 5 – Datganiad o Gymorth De Minimis

Dyfernir y Grant Rhwystrau o dan [Gymorth De Minimis](#), ac felly bydd angen i chi ddarparu gwybodaeth ynglŷn ag unrhyw gymorth De Minimis a dderbyniwyd yn ystod y tair blynedd gyllidol flaenorol (hy y flwyddyn gyllidol bresennol a'r ddwy flynedd gyllidol flaenorol). Os nad ydych chi wedi derbyn unrhyw gymorth – dylech chi gynnwys y gair DIM os gwelwch yn dda. Mae'n bwysig nad yw'r adran hon yn cael ei gadael yn wag.

Adran 6 – Datganiad

Mae'n bwysig [iawn](#) eich bod wedi darllen y ddogfen ganllawiau hon yn ofalus a'ch bod yn deall y telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig â'r cais Grant hwn.

Os ydych chi'n cytuno â'r telerau a'r amodau yn y ddogfen hon ac y gallwch chi gadarnhau bod y wybodaeth a ddarparwyd yn y cais yn wir ac yn fanwl gywir, mae'n rhaid i chi wedyn roi tic yn y blwch, cynnwys unrhyw lofnodion a dyddiadau a chyflwyno eich cais drwy e-bost.

BETH SY'N DIGWYDD AR ÔL I'R CAIS DDOD I LAW?

Unwaith y byddwn wedi derbyn eich ffurflen gais bydd ein tîm yn cydnabod derbyn eich cais.

Rydym yn anelu i brosesu ceisiadau grant o fewn 10 niwrnod gwaith o'r gydnabyddiaeth. Bydd penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau yn cael eu gwneud yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd yn y ffurflen gais, y dystiolaeth gysylltiedig a ddarparwyd a'r gwiriadau sylw dyledus pellach.

Unwaith y bydd wedi cael ei gymeradwyo, byddwch chi'n derbyn cymeradwyo'r grant drwy e-bost a fydd yn eich hysbysu chi bod grant wedi cael ei ddyfarnu.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr gadarnhau derbyn y llythyr cynnig drwy e-bost. Mae'n rhaid i chi ymateb i'r cynnig hwn o fewn saith niwrnod gwaith, neu bydd y cynnig grant yn cael ei dynnu'n ôl.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr gadarnhau derbyn y llythyr cynnig drwy e-bost.

Bydd y grant yn cael ei dalu pan mae eich busnes yn dechrau, ac nid ymlaen llaw. Mae taliadau fel arfer yn cymryd 5 diwrnod gwaith o gyflwyno ffurflen hawlio gywir a dogfennau cysylltiedig. Bydd angen i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth bod y cwmni wedi dechrau masnachu er mwyn derbyn y cyllid.

Bydd angen i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth fod y cwmni wedi dechrau masnachu, e.e. copi o'r anfoneb gyntaf, tystiolaeth o ddatganiad cyfrif banc busnes, statws cyfyngedig y cwmni, cofrestru gyda CThEM ar gyfer hunangyflogaeth, hysbysebu.

Os yw eich cais yn llwyddiannus, cysylltir â chi ymhen 3-5 mis i adolygu'r monitro ôl-ddyfarnu, asesu effaith y grant a gweld a oes angen cymorth pellach arnoch

Os yw eich cais yn aflwyddiannus, byddwch chi'n derbyn e-bost yn amlinellu'r rheswm/rhesymau am ei wrthod. Siaradwch ag un o gynghorwyr Busnes Cymru i ystyried mathau eraill o gyllid i'ch helpu i ddechrau busnes.

AD-DALU GRANTIAU

Dylai ymgeiswyr nodi y gall Llywodraeth Cymru neu ei chontractwyr penodedig fynnu bod y grant yn cael ei ad-dalu'n llawn neu'n rhannol os nad yw'r arian yn cael ei ddefnyddio at y dibenion a nodir ar y ffurflen gais. Mae'r ymgeisydd yn ymrwmo i gytundeb fel y cyfryw a gellir gorfodi hyn drwy ofyn am brawf, ar ôl dyfarnu'r grant.

TELERAU AC AMODAU AR GYFER YMGEISWYR

1. Caiff y grant hwn ei dalu yn ôl disgrisiwn absoliwt Llywodraeth Cymru.
2. Gall Gweinidogion Cymru neu ei chontractwyr atal neu adennill yr arian o dan rai amgylchiadau.
3. Bydd y taliad yn cael ei wneud drwy drosglwyddiad banc i'ch cyfrif banc enwebedig ar ôl casglu digon o dystiolaeth.
4. Rhaid i'r Cwmni sicrhau, at ddibenion y Prosiect, ei fod yn cydymffurfio â rheolau'r Comisiwn Ewropeaidd ar Gymorth Gwladwriaethol. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am y rheolau Cymorth Gwladwriaethol penodol sy'n berthnasol yma. Mae'r Cwmni'n gyfrifol am sicrhau bod y grant yn cael ei ddarparu yn unol â'r meini prawf cymorth gwladwriaethol sy'n berthnasol ar gyfer dyfarnu cyllid.
5. Er mwyn lleihau'r ystumio ar gystadleuaeth mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn gosod cyfyngiadau ar faint o gymorth y gellir ei roi i sefydliadau sy'n gweithredu mewn marchnad gystadleuol.
Mae'r cymorth sy'n cael ei ddarparu gan Busnes Cymru yn [Gymorth De Minimis](#), o dan Reoliad de Minimis 1407/2013 fel sydd wedi'i gyhoeddi yng Nghyfnodolyn Swyddogol y Cyfnodolyn Ewropeaidd wedi'i ddyddio 24 Rhagfyr 2013. Mae uchafswm o €200,000 (€100,000 ar gyfer ymgymeriadau yn y sector trafniadaeth ffyrdd) ar gyfer yr holl gymorth de minimis a ddarperir i unrhyw un sefydliad dros gyfnod o dair blynedd ariannol (h.y. y flwyddyn gyllidol bresennol a'r ddwy flynedd gyllidol flaenorol). Bydd unrhyw gymorth de minimis sy'n cael ei ddarparu i chi o dan y gwasanaeth hwn yn berthnasol. Drwy gytuno i'r cyllid hwn, rydych yn tystio eich bod yn parhau i fod o fewn y terfynau hyn.
6. Noder bod posibilrwydd y gellir datgelu gwybodaeth a gedwir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Fynediad Cyhoeddus i Wybodaeth. Yn ymarferol, ni fyddwn yn datgelu nac yn rhyddhau unrhyw wybodaeth fasnachol sensitif sy'n cael ei ddarparu i ni gennych chi heb ymgynghori â chi ymlaen llaw ond, yn y pen draw, Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu p'un a ddylid datgelu yng ngoleuni'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol.
7. Drwy wneud cais am y grant hwn, rydych chi'n cytuno i dderbyn y telerau a'r amodau hyn. Mae derbyniad yn cael ei ddilysu drwy wirio'r blwch telerau ac amodau ar y ffurflen gais a thrwy gyflwyno'r cais.
8. Nodwch na fydd Gweinidogion Cymru yn gwneud unrhyw daliadau i'r Cwmni hyd nes y byddwch wedi dychwelyd y dystiolaeth ychwanegol sy'n ofynnol fel y nodir yn adran 6.
9. Dylai unrhyw arian sy'n cael ei ddyfarnu gael ei ddefnyddio at y dibenion sydd wedi'u cymeradwyo yn y cais yr ydych chi wedi'i wneud yn unig ac mewn unrhyw ddogfennau y cyfeirir atynt ynddo.
10. Rhaid i'r cyllid gael ei hawlio erbyn 31 Mawrth 2021.
11. Bydd y Cwmni yn ddarparu'r holl wybodaeth i Weinidogion Cymru ynghylch ei weithgareddau neu weithgareddau arfaethedig ac ynghylch ei ddefnydd neu'r defnydd arfaethedig o'r holl gyllid neu unrhyw ran ohono, yn ôl gofynion Gweinidogion Cymru o bryd i'w gilydd.
12. Mae Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bawb sy'n derbyn cyllid sicrhau eu bod yn defnyddio polisi o gyfle cyfartal fel cyflogwyr, fel defnyddwyr gwirfoddolwyr, ac fel ddarparwyr gwasanaethau, waeth beth fo'u hil, adnabod rhywedd/hunaniaeth rhywedd,

cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oedran neu cyn belled ag sy'n ymarferol, unrhyw anabled.

13. Bydd gan Weinidogion Cymru hawl i amrywio, dal yn ôl neu derfynu unrhyw ran o'r cyllid neu'r cyfan ohono a/neu ei gwneud yn ofynnol i ran neu'r cyfan o'r cyllid a dalwyd eisoes gael ei ad-dalu os:

- i. yw'r Cwmni'n methu â chydymffurfio ag unrhyw delerau, amod neu ddarpariaeth sydd wedi'u nodi yn y ddogfen Telerau ac Amodau hon, Nodiadau cyfarwyddyd y cais;
- ii. canfyddir bod unrhyw wybodaeth a ddarperir gan neu ar ran y Cwmni mewn perthynas â chaffael y cynnig hwn o gyllid neu mewn cais am dalu cyllid yn anghywir neu'n gamarweiniol i'r graddau y mae Gweinidogion Cymru yn ei ystyried yn berthnasol;
- iii. yw Gweinidogion Cymru yn amau bod y Cwmni a/neu unrhyw un o'i swyddogion yn ymwneud â gweithgarwch twyllodrus.

14. Caiff Gweinidogion Cymru amrywio a/neu ddal unrhyw daliadau neu bob un o'r taliadau yn ôl a/neu ei gwneud yn ofynnol i ad-dalu arian, ynghyd â llog o'r dyddiad talu os:

- i. yw'n ofynnol iddynt wneud hynny o ganlyniad i benderfyniad gan y Comisiwn Ewropeaidd neu o ganlyniad i unrhyw rwymedigaeth o dan Gyfraith Gymunedol; Neu
- ii. yn eu barn nhw, mae angen sicrhau bod y cyllid sy'n cael ei ddarparu yn unol â'r llythyr hwn ynghyd ag unrhyw gyllid arall sydd wedi'i dderbyn neu sy'n debygol o gael ei roi tuag at y Prosiect yn gyfreithlon o safbwynt Cymorth Gwladwriaethol.

15. Os caiff y Cwmni ei ddirwyn i ben neu os caiff ei ddiddymu (gan gynnwys bod yn destun unrhyw orchymyn gweinyddu), mynd i ddwylo'r derbynydd, methdaliad, yn ffurfio unrhyw gyfaddawd neu drefniant arall o'i ddyledion gyda'i gredydwy'r neu unrhyw ddigwyddiad tebyg neu gyfatebol i unrhyw un o'r digwyddiadau sy'n cael eu disgrifio yn y paragraff 15 hwn yn digwydd, yna bydd gan Weinidogion Cymru hawl i adennill ar gais gan y Cwmni y cyllid a dalwyd ac ni fydd unrhyw arian pellach yn ddyledus neu'n daladwy gan Weinidogion Cymru i'r Cwmni nac i unrhyw un sy'n gweithredu drosto neu ar ei ran neu yn ei enw. Bydd unrhyw gyfeiriad at swm y cyllid a dalwyd neu sydd i'w dalu i'r Cwmni yn cael ei ystyried yn golygu ac yn gyfyngedig i'r swm o arian a delir mewn gwirionedd i'r Cwmni gan Weinidogion Cymru ar yr adeg y bydd unrhyw ddigwyddiadau y cyfeirir atynt uchod yn digwydd.

16. Rhaid i'r Cwmni, yn ddi-dâl, ganiatáu i unrhyw swyddog neu swyddogion Gweinidogion Cymru neu eu cynrychiolwyr, ar unrhyw adeg resymol ymweld â'i safle a/neu archwilio unrhyw un o'i weithgareddau a/neu archwilio'r asedau neu eitemau cost prosiect a brynwyd, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gyda'r cyllid a/neu i archwilio a chymryd copiâu o lyfrau cyfrifon y Cwmni ac unrhyw ddogfennau neu gofnodion eraill a allai, ym marn y swyddogion hynny, ymwneud mewn unrhyw ffordd â'r defnydd o gyllid gan y Cwmni. Mae'r amod hwn heb ragfarn ac yn ddarostyngedig i unrhyw hawliau a phwerau statudol eraill y gellir eu harfer gan Weinidogion Cymru neu unrhyw swyddog, gwas neu asiant iddynt.

17. O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru hawliau mynediad helaeth i ddogfennau a gwybodaeth sy'n ymwneud â chyllid sy'n cael ei ddarparu gan Weinidogion Cymru. Mae ganddo ef a'i swyddogion y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i unigolion perthnasol sy'n rheoli neu'n dal dogfennau roi unrhyw gymorth, gwybodaeth ac esboniad y gallant fod eu hangen ac i'w gwneud yn ofynnol i'r unigolion hynny ddod ger eu bron at y diben hwnnw. Gall yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff arfer yr hawl hon ar bob adeg resymol.

18. Bydd y Cwmni yn caniatáu i archwilwyr yr UE gael mynediad at ddogfennau a gwybodaeth sy'n ymwneud â chyllid ar gyfer y Prosiect. Rhaid i'r Cwmni sicrhau bod

unigolion sy'n rheoli neu'n dal dogfennau sy'n ymwneud â'r Prosiect yn rhoi unrhyw gymorth, gwybodaeth ac esboniad y gallai fod ei angen arnynt i archwilyr yr UE.

19. Os daw'r Cwmni yn ymwybodol o ddirywiad sylweddol yn ei amgylchiadau ariannol yn ystod y flwyddyn ariannol, neu yn ystod yr archwiliad o gyfrifon sy'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol honno, rhaid iddo hysbysu ei Swyddog Llywodraeth Cymru ar unwaith.

20. Rhaid i'r Cwmni gydnabod, trwy gynnwys geiriad priodol (ar ddatganiadau i'r wasg) a brandio (ar gyhoeddusrwydd, deunyddiau cyfathrebu ac arwyddion), y cyfraniad sy'n cael ei wneud i'w weithgareddau gan Weinidogion Cymru. Dylai'r Cwmni gysylltu â Swyddog Llywodraeth Cymru i gael mwy o fanylion.

22. Bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud ymdrechion rhesymol i dalu hawliadau yn brydlon, ond nid ydynt yn derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas â cholled y gellir ei phriodoli i unrhyw oedi wrth dalu hawliadau neu y gellir ei briodoli i unrhyw ataliad, gostyngiad neu ganslo'r cyllid.

23. Rhaid i chi beidio â defnyddio'r arian a ddarperir at ddibenion plaid wleidyddol; (2) hyrwyddo safbwyntiau seciwlar, crefyddol neu wleidyddol penodol; (3) gamblo; (4) pornograffi; (5) cynnig gwasanaethau rhywiol; (6) prynu offer cyfalaf (ac eithrio fel a bennir yn y dibenion); (7) eich ffioedd cyfreithiol mewn perthynas â'r llythyr hwn; (8) Costau sy'n dod i ran neu gostau sy'n dod i ran ac sy'n cael eu talu gennych wrth gyflawni'r dibenion cyn y cyfnod y cyfeirir ato yn amod 1 (b); (9) unrhyw fath o weithgareddau anghyfreithlon; neu (10) unrhyw fath arall o weithgaredd a allai, yn ein barn ni, ddwyn anfri arnom.

24. Trwy lofnodi'r cais hwn, rydych yn ardystio nad oes unrhyw ymgyfreithiad na chyflafareddiad yn gyfredol nac yn yr arfaeth neu, hyd y gwyddoch, yn cael ei fygwth, sydd wedi neu a allai gael effaith andwyol ar eich gallu i berfformio a chydymffurfio ag unrhyw un o'r Amodau na'ch gallu i barhau i fasnachu fel busnes yng Nghymru.

25. Trwy lofnodi'r cais hwn rydych wedi datgelu'r holl ffeithiau neu amgylchiadau perthnasol i ni y mae angen eu datgelu i'n galluogi i gael golwg gywir a gwir o'ch busnes a'ch materion (cyfredol a darpar) neu y dylid eu darparu i unrhyw berson sydd yn ystyried darparu cyllid i chi.

26. Trwy lofnodi'r cais hwn, rydych yn cytuno i gydweithredu'n llawn â swyddog Llywodraeth Cymru ac unrhyw weithiwr cyflogedig arall o Lywodraeth Cymru neu'r ymgynghorydd a benodwyd gennym ni i fonitro eich defnydd o'r cyllid a'ch cydymffurfiaeth â'r Amodau.

27. Rhaid i chi gynnal cofnodion cyfrifyddu cyflawn a chywir gan nodi'r holl incwm a gwariant mewn perthynas â'r cais rydych chi'n ei wneud a heb dâl, caniatáu i unrhyw swyddog neu swyddogion Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Comisiwn Ewropeaidd neu ei gontractwyr enwebedig ar unrhyw adeg resymol a gyda rhybudd rhesymol (mewn amgylchiadau eithriadol, megis atal neu ganfod twyll, efallai na fydd yn ymarferol rhoi rhybudd rhesymol i chi) yn cael ei roi i chi i ymweld â'ch adeilad a/neu i archwilio unrhyw un o'ch gweithgareddau a/neu archwilio a chymryd copïau o'ch llyfrau cyfrifon a pha bynnag ddogfennau neu gofnodion eraill sut bynnag y cânt eu storio fel sydd ym marn resymol swyddog o'r fath y gallant ymwneud mewn unrhyw ffordd â'ch defnydd o'r Cyllid Grant. Mae'r ymgymeriad hwn heb ragfarn ac yn ddarostyngedig i unrhyw hawliau a phwerau statudol eraill y gellir eu harfer gan Lywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Comisiwn Ewropeaidd neu unrhyw swyddog, gwas neu asiant i unrhyw un o'r uchod.

28. Nid oes unrhyw beth yn yr Amodau yn gosod unrhyw atebolrwydd arnom mewn perthynas ag unrhyw atebolrwydd sydd ar eich rhan i unrhyw drydydd parti (gan gynnwys, heb derfyn, gweithwyr a chontractwyr).

29. Rhaid i chi ein digolledu yn erbyn unrhyw rwymedigaethau, hawliadau, achosion, galwadau, colledion, costau a threuliau a ddioddefwyd neu sy'n dod i'n rhan yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ganlyniad i neu mewn cysylltiad ag unrhyw fethiant gennych chi i berfformio'n llawn neu'n rhannol unrhyw rwymedigaeth y gallai fod yn ofynnol gennych chi i drydydd parti.

Busnes Cymru - Hysbysiad Preifatrwydd - Grant Rhwystrau

Er mwyn cael eich ystyried ar gyfer y Grant Rhwystrau, mae'n ofynnol i ni, Llywodraeth Cymru, gasglu gwybodaeth gennych chi. Bydd yr wybodaeth hon yn cynnwys gwybodaeth bersonol yn ogystal â rhywfaint o wybodaeth am eich busnes. Mae angen y wybodaeth bersonol hon er mwyn i ni asesu eich cymhwysedd ar gyfer y Grant ac, os yn llwyddiannus, i gael mynediad at gyllid, gwasanaethau, cyngor a gwybodaeth.

Y seiliau cyfreithiol dros brosesu data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarparir gennych mewn perthynas â'ch cais am grant. Bydd yr wybodaeth yn cael ei phrosesu fel rhan o'n gorchwyl cyhoeddus (h.y. arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru) ac yn ein helpu i asesu a ydych yn gymwys i gael cyllid. Mae'r data Categori Arbennig yn cael ei brosesu er budd sylweddol y cyhoedd o ddarparu cymorth ariannol i unigolion sy'n wynebu rhwystrau wrth ddechrau busnes o ganlyniad i bandemig COVID-19.

Atal twyll

Cyn i ni ddarparu cyllid grant i chi, rydym yn cynnal gwiriadau at ddibenion atal twyll a gwyngalchu arian, ac i gadarnhau pwy ydych chi. Mae'r gwiriadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni brosesu data personol amdanoch chi i asiantaethau atal twyll trydydd parti.

Os byddwn ni, neu asiantaeth atal twyll, yn penderfynu eich bod yn peri risg o dwyll neu wyngalchu arian, efallai y byddwn yn gwrthod darparu'r arian grant y gwnaethoch gais amdano, neu efallai y byddwn yn rhoi'r gorau i ddarparu'r cyllid grant presennol i chi.

Bydd cofnod o unrhyw dwyll neu risg gwyngalchu arian yn cael ei gadw gan yr asiantaethau atal twyll, a gall arwain at eraill yn gwrthod darparu gwasanaethau, cyllid neu gyflogaeth i chi.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn eich cais, byddwn yn ysgrifennu atoch gydag amlinelliad o'r rhesymau pam a sut y gallwch ail-ymgeisio am gyllid (Os byddwch yn dymuno).

Mathau o wybodaeth bersonol

Mae'r wybodaeth a gesglir yn cynnwys enw, cyfeiriad, gwybodaeth gysylltu a gwybodaeth am eich busnes. I dderbyn cefnogaeth Grant Rhwystrau Busnes Cymru, mae'n ofynnol i ni hefyd brosesu gwybodaeth Categori Arbennig ynghylch eich ethnigrwydd neu'ch anabledd er mwyn asesu'ch cymhwysedd ar gyfer y cynllun.

Pwy fydd yn gallu gweld eich data

Bydd gweinyddwyr technegol y system, sy'n cefnogi'r system TG, yn gallu gweld yr wybodaeth a gesglir. Ni fydd gweinyddwyr technegol y system yn defnyddio eich manylion mewn unrhyw ffordd.

Caiff yr wybodaeth a gesglir i ddibenion Busnes Cymru ei rannu gyda'r sefydliadau canlynol i'r dibenion a nodir isod:

- Gan gcontractwyr yn cyflwyno gwasanaeth Busnes Cymru sy'n darparu cymorth i fuddiolwyr;
- Gan sefydliadau ymchwil gymdeithasol gymeradwy, i wneud gwaith ymchwil, dadansoddi neu fonitro cyfle cyfartal yng nghyswllt gwasanaeth Busnes Cymru;
- Y Comisiwn Ewropeaidd a Thîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (EFAT) a fydd yn cymryd samplau o'n data i sicrhau ein bod yn dilyn y prosesau cywir.

Beth fyddwn ni'n ei wneud â'r wybodaeth

- Monitro ac adrodd ar y nifer o unigolion a mentrau sy'n cymryd rhan mewn prosiectau a nifer y bobl o wahanol grwpiau sy'n cael cymorth (e.e. gwahanol oedrannau, rhywiau ac ethnigrwydd).
- Nodwch, os gwelwch yn dda, mai dim ond â sampl o unigolion a/neu fentrau y bydd sefydliadau ymchwil/gwerthuswyr yn cysylltu. Os cysylltir â chi i gymryd rhan mewn ymchwil/ gwerthusiad o'ch profiad ar y prosiect, bydd diben y cyfweiliad neu arolwg yn cael ei esbonio i chi a rhoddir dewis i chi dderbyn neu wrthod y cais i gymryd rhan. Dim ond i ddibenion ymchwil gymeradwy y defnyddir eich manylion cysylltu a byddant yn cael eu dileu pan fydd yr ymchwil gymeradwy wedi'i chwblhau.

Am ba hyd y caiff eich manylion eu cadw

Mae'n ofynnol i ni o dan ddeddfwriaeth Cymorth Gwladol gadw eich data personol am isafswm o 10 mlynedd ar ôl i'r prosiect ddod i ben ac ar ôl y cyfnod hwnnw caiff ei ddinistrio'n ddiogel. Os yw eich cais yn aflwyddiannus, bydd eich gwybodaeth bersonol a roddwyd yn y cais hwnnw yn cael ei chadw am gyfnod o 12 mis yn unol â pholisi cadw gwybodaeth Llywodraeth Cymru.

Eich Hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych hawl i'r canlynol:

- gweld y data personol mae Llywodraeth Cymru'n ei gadw amdanoch chi;
- mynnu ein bod yn cywiro unrhyw wybodaeth anghywir yn y data hynny;
- gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu data (o dan rai amgylchiadau);
- 'dileu' eich data (o dan rai amgylchiadau);
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Y manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Customer Contact
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

FFôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: www.ico.org.uk

I gael cymorth gydag unrhyw un o'r hawliau uchod cysylltwch â Llinell Gymorth Busnes Cymru **03000 6 03000** neu defnyddiwch y ffurflen cysylltu â ni <https://businesswales.gov.wales/cy/cysylltwch-a-ni>

Deddf Rhyddid Gwybodaeth a'ch Gwybodaeth Chi

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am weld gwybodaeth a gedwir gan gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Gall yr wybodaeth rydych chi'n ei roi i ni fod yn destun cais rhyddid gwybodaeth gan aelod arall o'r cyhoedd. Byddem yn cysylltu â chi i gael eich barn cyn ymateb i gais o'r fath.

I gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau gwybodaeth

cyfeiriad post –

Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

E-bost: Swyddogdiogeludata@llyw.cymru